

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55
(CYFFORDD 9 (CYFNEWIDFA TREBORTH) I
GYFFORDD 10 (CYFNEWIDFA FFORDD
CAERNARFON), BANGOR, GWYNEDD)
(GWAHARDD CERBYDAU, BEICWYR A
CHERDDWYR DROS DRO) 2023**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A55, neu gerllaw iddi, rhwng Cyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth) a Chyffordd 10 (Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon), Bangor, Gwynedd.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, beiciwr a cherddwr rhag mynd ar y darn o gerbyttffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 10 (Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon), gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 9 a'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 10.

Y llwybr arall yw mynd ar hyd ffordd ymadael tua'r dwyrain Cyffordd 9, yr A487 tua'r de hyd at gylchfan y Faenol a'r A4087 tua'r gogledd i gyfeiriad Bangor i ailymuno â'r A55 wrth Gyffordd 10.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 3 Mehefin 2023. Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro yn weithredol dros nos (18:00 – 06:00 o'r gloch) o 3 – 30 Mehefin 2023 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchymynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A55 TRUNK ROAD (JUNCTION 9
(TREBORTH INTERCHANGE) TO JUNCTION
10 (CAERNARFON ROAD INTERCHANGE),
BANGOR, GWYNEDD) (TEMPORARY
PROHIBITION OF VEHICLES, CYCLISTS &
PEDESTRIANS) ORDER 2023**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A55 trunk road between Junction 9 (Treborth Interchange) and Junction 10 (Caernarfon Road Interchange), Bangor, Gwynedd.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, cyclists and pedestrians from proceeding on the length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from its nosing with the eastbound exit slip road at Junction 9 to the nosing of the eastbound entry slip road at Junction 10, including the eastbound entry slip road at Junction 9 and the eastbound exit slip road at Junction 10.

The alternative route is via the Junction 9 eastbound exit slip road, the southbound A487 to the Faenol roundabout and northbound A4087 towards Bangor to rejoin the A55 at Junction 10.

The Order comes into force on 3 June 2023. The temporary prohibitions are expected to operate overnight (18:00 – 06:00 hours) from 3 – 30 June 2023 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government